



Cwestiwn	Ymateb
Pa gyrsiau TGAU sydd ar gael a ble mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnig?	Rydym yn cynnig y TGAU canlynol: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg (Ail iaith), Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd, Bioleg Lleoliad: Abergel, Llangefni, Llandrillo-yn-Rhos, Rhyl, ar-lein. Sylwch nad yw pob TGAU yn cael ei gynnig ar bob campws. Gwiriwch y wefan am fwy o fanylion.
Am faint o'r gloch mae'r cyrsiau TGAU?	Bydd dyddiad a lleoliad y cyrsiau TGAU rhan-amser ar gael ar y wefan (Mai/Mehefin bob blwyddyn).
Faint fydd cost y cyrsiau?	Cyfanswm y gost ydy £120. Mae'r ffi dysgu'n £80 a'r ffi arholiad yn £40. Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i dderbyn gostyngiad.
Sut galla i ganfod ydw i'n gymwys i dderbyn gostyngiad?	Ewch i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth: Ffioedd a Gostyngiadau
Beth yw'r broses o wneud cais ar gyfer cwrs TGAU rhan-amser?	Gwneir cais i ddilyn cwrs TGAU rhan-amser ar ein gwefan.
Sut mae talu am fy nghwrs TGAU?	Byddwch yn talu am ddosbarthiadau wyneb- yn-wyneb yn ystod y sesiwn gyntaf ym mis Medi. Yn achos dosbarthiadau ar-lein, bydd rhywun o'r coleg yn cysylltu â chi i wneud taliad diogel dros y ffôn.
Rydw i'n iau na 16 oed, alla i gwblhau fy nghyrsiau TGAU yn y coleg?	Os ydych yn derbyn eich addysg gartref yn hytrach na mewn sefydliad addysg statudol gallwch ddod i ddosbarthiadau TGAU yn y coleg. Bydd gofyn i chi ddod â hebryngwr addas gyda chi i bob gwrs. Codir tâl ar raddfa arferol y coleg. Cyn cofrestru rydym yn awgrymu bod eich rhieni yn cysylltu â Gwasanaethau Dysgwyr am ragor o wybodaeth.
Rydw i wedi cofrestru ar gwrs llawn amser, alla i ailsefyll fy arholiad TGAU hefyd?	Gallwch. Os ydych chi wedi ennill gradd D, byddwn yn eich cofrestru i ailsefyll yr arholiad TGAU priodol. Os yw eich gradd yn is na gradd D, byddwn yn eich cofrestru ar raglen Sgiliau Hanfodol priodol er mwyn eich cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gael mynediad at TGAU yn y dyfodol. Os yw eich gradd yn radd C neu uwch ac os hoffech wella'r radd honno cewch gyfle i wneud hynny.
Hoffwn wneud cais ar gyfer y cwrs TGAU mewn Rhifedd neu Fathemateg. Sut byddaf yn gwybod bod fy sgiliau mathemateg yn ddigon da i ymdopi â'r cwrs?	Gall ein tiwtoriaid gynnal asesiad cyflym os ydych chi'n poeni y byddwch chi'n cael trafferth gyda chynnwys y cwrs TGAU. Yn dilyn hynny mi fyddan nhw'n trafod hyn â chi ac yn eich cyfeirio at gwrs Mathemateg mwy addas. Bydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau cyn dychwelyd i ddilyn cwrs TGAU yn y dyfodol.
Beth yw lefel TGAU Mathemateg/Rhifedd, alla i ennill gradd C?	Bydd y papur canolradd yn caniatáu i chi ennill graddau rhwng E a B. Os yw eich tiwtor yn teimlo y gallech ennill gradd uwch na gradd B mi fydd yn trafod y posibilrwydd o'ch cofrestru i gwblhau papur haen uwch.
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng TGAU Mathemateg a TGAU Rhifedd?	Bydd TGAU Mathemateg - Rhifedd yn asesu'r fathemateg y bydd gofyn i chi ei defnyddio mewn bywyd bob dydd ac yn y byd gwaith. Bydd TGAU Mathemateg yn ymestyn i'r agweddau mathemateg sy'n ofynnol i fynd ymlaen i astudiaethau mathemategol, gwyddonol neu dechnegol pellach. Os oes gennych unrhyw lwybr dilyniant mewn golwg, dylech drafod beth yw eu gofynion penodol.
Hoffwn wneud cais ar gyfer y cwrs TGAU Cymraeg (Ail iaith). A yw'r cwrs hwn yn addas i rywun â dealltwriaeth cyfyngedig o'r Cymraeg e.e. dim ond yn gyfarwydd â'r wyddor Cymraeg, geiriau sylfaenol, diwrnodau'r wythnos, misoedd a rhifau? Neu ydych chi wedi cael gwybod eich bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r iaith.	Bydd gofyn i chi feddu ar ddealltwriaeth dda o Gymraeg sylfaenol. Os ydych chi'n ansicr, cysylltwch â ni a gallwn drefnu i chi gael sgwrs anffurfiol gydag un o'r tiwtoriaid.
Hoffwn gwblhau fy mhws TGAU ar-lein - pa offer fydd ei hangen arnaf?	Byddwch angen mynediad i gyfrifiadur personol, gliniadur neu chromebook a gwasanaeth rhyngwrdd dibynadwy. Dylai bod gwe gamera, microffon a seinydd ar eich dyfais er mwyn i chi fedru cymryd rhan lawn yn y wers.
Mae gennyf ddiddordeb mewn dilyn cwrs TGAU mewn Bioleg, ydy'r cwrs hwn ar gael ar-lein?	Nac ydy. Mae angen cwblhau elfennau ymarferol yn ystod y cwrs a dim ond ar y campws mae'r rhain ar gael.
Mae cwestiwn gennyf o hyd am y TGAU, alla i siarad â rhywun?	Cysylltwch â'r adran Cyngor ac Arweiniad i drafod eich ymholiad ymhellach.
Rydw i wedi gwneud cais ac wedi talu am gwrs TGAU ar-lein fydd yn dechrau fis Medi. Pryd bydda i'n derbyn rhagor o wybodaeth am ddyddiad dechrau ac oriau'r cwrs a sut bydda i'n cael mynediad ato?	Bydd eich tiwtor yn cysylltu'n uniongyrchol a chi ac mi gewch gyngor am yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn dechrau ar y cwrs. Mae'n bwysig iawn bod eich cyfeiriad e-bost gennym oherwydd dyma sut bydd y tiwtor yn anfon gwybodaeth bwysig atoch chi.
Ydi hi'n bosibl i mi sefyll arholiad TGAU fel ymgeisydd allanol, heb ddilyn y dosbarthiadau?	Nac ydy, nid ydym yn derbyn ymgeiswyr allanol i sefyll TGAU yma. Er mwyn sefyll unrhyw arholiad TGAU yn y coleg, rhaid i chi gofrestru ar y cwrs.
Rydw i'n ystyried dilyn cwrs TGAU ar-lein, ble bydda i'n sefyll yr arholiad?	Ar ddechrau'r cwrs, bydd eich tiwtor yn gofyn i chi nodi ar ba campws hoffech chi sefyll yr arholiad. Gallwch ddewis y campws sy'n lleol i ble rydych chi'n byw. Cewch ddewis o'r canlynol: Bangor, Dolgellau, Glynllifon, Llangefni, Pwllheli, Llandrillo-yn-Rhos, Y Rhyl.
Oes dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am gwrs TGAU ar-lein?	Unwaith bydd y cwrs yn llawn neu'r dyddiad dechrau wedi pasio, bydd y cwrs yn cael ei dynnu oddi ar y wefan.